'Gwneud ein gorau dros Anthony'

(parchu eraill / dysgu maddau)

Am bythefnos gyfan roedd Mrs Gee Walker a'i theulu wedi gwrando ar bob gair yn Llys y Goron, Lerpwl. Ar 29 Gorffennaf 2005 roedd ei mab, Anthony, ei gariad Louise Thompson a'i gefnder Marcus Binns yn cerdded oddeutu un ar ddeg o'r gloch y nos, i ddal bws yn Huyton, Glannau Mersi. Daeth dau fachgen, Michael Barton a Paul Taylor, allan o'r dafarn gyferbyn â'r man roedd y tri yn disgwyl y bws. Dyma nhw'n dechrau gweiddi ensyniadau hiliol tuag at Anthony oedd yn 18 oed.

Dyma'r ddau'n dechrau rhedeg tuag ato, a dyma yntau, ei gariad a'i gefnder yn rhedeg i'r parc. Pan oedden nhw'n cyrraedd y parc aeth Peugeot Paul Taylor heibio iddyn nhw ar gyflymder mawr. Tra oedd y triawd yn cerdded drwy Barc Goldrick ar eu ffordd tua phentref Huyton, dyma gysgod dau yn ymddangos o'r llwyni. Roedden nhw â'u bryd ar ymosod ar y gŵr tywyll ei groen, Anthony Walker. Meddai Louise, ei gariad, "Mi wnaethon nhw neidio allan o'r gwrych a gafael yn Anthony. Rhedais innau nerth fy nhraed gan weiddi a sgrechian."

Yn y cyfamser roedd ei gefnder Marcus wedi rhedeg tuag at y tai cyfagos gan erfyn ar berchennog y tŷ cyntaf a welodd i ddod allan i'w helpu. Ymhen rhai munudau roedd Marcus a'r perchennog wedi cyrraedd yno. Roedd yr olygfa'n ddychrynllyd. Gorweddai Anthony ar y llawr a bwyell wedi ei thrywanu i'w benglog. Mae'n amlwg bod Taylor wedi taro'r fwyell mor galed nes ei bod wedi hollti'i benglog a dyna lle roedd yn gorwedd 7cm i mewn i'w ymennydd.

Aethpwyd ag ef i ysbyty Whitson a'i drosglwyddo wedyn i ysbyty Walton yn oriau mân y bore, ond bu farw am 5.25 y bore hwnnw gyda'i deulu o gwmpas ei wely. Bellach roedd yr heddlu yn chwilio am lofruddion. Roedd y bobl leol yn weddol sicr pwy oedd y llofruddion a'r newyddion diweddaraf oedd bod y ddau wedi ffoi i Amsterdam. Erbyn 3 Awst roedd y ddau yn cael eu hebrwng i Ganolfan Heddlu Glannau Mersi gan aelodau o'r heddlu.

Yn y Llys, bu Gee, mam Anthony, yn gwrando ar bob gair. Penderfyniad y Barnwr Leveson oedd dedfrydu Barton a Taylor i garchar am gyfnod helaeth. Ar ddiwedd y gwrandawiad pan ddaeth Mrs Walker allan o'r Llys a'r gohebwyr o'i chwmpas yn

lluoedd roedd ei hymateb wedi syfrdanu pawb, “Mae’n bur debyg mai’r cwestiwn rydych chi i gyd eisiau i mi’i ateb yw ‘A ydych yn maddau i Barton a Taylor?’ Pan oedd Iesu ar fin marw ar y groes Ei eiriau oedd, ‘Maddau iddynt’. Mae’n rhaid i minnau faddau. Rydw i’n dal i faddau iddyn nhw.”

“Oes gennych chi rywbeth arall i’w ddweud?” gofynnodd un o ohebwyr y teledu iddi. “Mi fydd hwn yn gyfnod anodd iawn i ni fel teulu, i Steve fy ngŵr, a chwiorydd Anthony. Ond mae’n rhaid i ni fynd yn ein blaenau er mwyn Anthony. Bydd pob un ohonon ni’n cymryd rhan o Anthony ac yn ceisio byw bob munud iddo fo. Roedd Anthony bob amser yn driw, yn llawn hwyl ac yn meddwl am bobl eraill bob tro. A’i uchelgais mewn bywyd oedd cael bod yn farnwr. Mae’n rhaid i ni i gyd wneud ein gorau i gofio am Anthony.”

Adnod: “Yn awr, chwi yw corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod.” 1 Corinthiaid 12:27

Gweddi: Helpa fi, O Dduw, i barchu pawb, beth bynnag fo lliw eu croen. Amen.

Trafod:

- Pam yn eich barn chi, y cafodd Anthony ei lofruddio?
- Ydych chi’n credu ein bod ni yma yng Nghymru yn dal i goleddu syniadau hiliol?